



Papur i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar faterion sy'n ymwneud â'r sector cynhyrchu teledu sy'n codi o adael yr Undeb Ewropeaidd

1. Mae TAC yn cynrychioli'r sector teledu annibynnol yng Nghymru, sy'n cynnwys tua 50 o gwmnïau parhaol ynghyd ag eraill sy'n cefnogi cynrychiadau penodol. Mae'r cwmnïau hyn yn creu cynnwys ar gyfer darlledwyr cyhoeddus ledled y DU (y BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5) yn ogystal â darlledwyr masnachol megis Sky. Mae yn ymwneud yn gynyddol â chydgyrhyrchiadau rhyngwladol, ac maaent yn creu'r rhan fwyaf o gynnyrch S4C. Maent hefyd yn cynhyrchu i BBC Cymru, RadioCymru a Radio Wales.
2. Mae TAC yn croesawu'r gwahoddiad gan y Pwyllgor i fynegi barn ar sefyllfa aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Mae pryderon y diwydiant cynhyrchu yng Nghymru'n ymdebygu i bryderon y diwydiant ledled y DU. Diben y nodyn hwn ydy crynhoi'r pryderon hynny ar gyfer y Pwyllgor.
3. Yng nghyd-destun polisi Llywodraeth Cymru yn benodol, hoffem nodi y bydd yr holl ffactorau isod yn creu anawsterau i ryw raddau i gwmnïau newydd a sefydlog yn y diwydiannau creadigol, yn benodol cynhyrchu teledu. O'r herwydd, mi fydd yn bwysicach nag erioed i dargedu unrhyw gymorth sydd ar gael yn ofalus. Mae TAC wedi cynnal sgwrs ddiweddar gyda'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllun Cymru Greadigol parthed sut gallwn ni gyfrannu ato.
4. Un o'r prif flaenoriaethau fydd ceisio sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n targedu buddsoddiadau penodol at alluogi cwmnïau i dyfu mewn modd cynaliadwy, fel y nodwyd gennym mewn papur blaenorol i'r Pwyllgor: "Yr hyn sydd ei angen ydy cronfa wedi ei lunio i alluogi i gwmnïau gryfhau eu gweithdrefn o ddatblygu ac ymchwilio i syniadau i'w cynnig i rwydweithiau'r DU, yn ogystal â chynllun tymor hir i hyrwyddo'r sector yng Nghymru i'r darlledwyr yn y DU yn gyson, fel nad oes esgus gan y darlledwyr hynny i fethu ystyried o ddifrif yr hyn sydd gan y sector i'w gynnig."¹
5. Mae'r ansicrwydd cyfredol parthed perthynas Prydain â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol yn destun pryder i'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru, ac yn wir, yn sector y diwydiannau creadigol yng Nghymru drwyddi draw, sydd at ei gilydd yn gyfwerth ag oddeutu £1.6bn.² Mae nifer o ffactorau sydd i gyfrif am hyn:

Canlyniad cyfyngu ar symudiadau

6. Ar hyn o bryd, gall llawer o gynrychiadau ffilmio ar dir mawr Ewrop, gan ddefnyddio talent rhanbarthol o flaen y camera a'r tu ôl iddo. Nid yn unig bydd cyfyngiadau teitheb llymch a

¹ Ymateb i archwiliad Pwyllgor DGCh i gynhyrchu ffilm a chynrychiadau teledu mawr yng Nghymru, TAC, Ebrill 2018, t4, para 23

² Yn 2015, cyhoeddodd Lywodraeth Cymru fod: 'cwmnïau creadigol yng Nghymru'n cynnwys datblygu meddalwedd ac apiau, cynhyrchu ffilm a theledu, gemau, cerddoriaeth, marchnata digidol a mwy, gan gyflogi tua 50,000 o bobl a chreu gwerth £1.6 o drosiant blyneddol.' Just Ask Wales – taflen y Diwydiannau Creadigol, 2015, t4

phrosesau hirach yn cynyddu biwrocratiaeth, ond gallai amharu ar gynrychiadau yn ogystal os ydy'r cyfyngiadau newydd yn hynod llym. Mae hyn eisoes yn digwydd weithiau wrth ymdrin â thalent neu leoliadau y tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r diwydiant animeiddio ac effeithiau gweledol yn enwedig yn dibynnu ar ryddid symudiadau dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd oherwydd y prinder y sgiliau arbenigol perthnasol yn y DU. Yn ôl ffigyrau DCMS yn 2016, roedd 6.7%, neu 131,000 o weithwyr ledled y diwydiannau creadigol yn ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn o'i gymharu â 7.0% yn yr economi dros y cyfan.³ Yn ôl adrodd ar gyfer y BFI yn 2018, mi dderbyniodd Cymru £24.4m, gan yr ERDF (Y Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd, yn ystod y cyfnod 2007–2013.⁴

7. Yn amlwg, mi fydd yn cymryd amser i gyfnod y bobl hyn â thalent cynhyrchu gynhenid, ac o'r herwydd, rydyn ni'n siomedig i weld bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu'n ddiweddar i gynyddu lefelau ariannu hyrwyddo astudio pynciau STEM (y gwyddorau, technoleg, peirianeg a mathemateg).⁵ Rydym yn deall bod hyn yn rhannol er mwyn annog merched i i astudio pynciau yn y meysydd hyn, ond dylid nodi bod pwyslais parhaus y Llywodraeth ar bynciau STEM yn Lloegr wedi achosi gostyngiad difrifol yn nifer y bobl ifanc sy'n astudio pynciau creadigol yn yr ysgol.⁶ Byddai'n dda gweld agwedd Llywodraeth Cymru at bynciau celfyddyd a chelf yn fwy cytbwys, gan gydnabod pa mor bwysg mae pynciau o'r fath wrth feithrin meddylfryd creaiogol drwy'r holl ystod o ddisgyblaethau.

Gobeithio, felly, y bydd pynciau creadigol yn rhan bwysig o gwricwlwm newydd Cymru, sydd i'w gyhoeddi adeg y Pasg 2019.⁷ Bydd angen cefnogi hwn gyda chynghor gyrfaoedd sy'n cydnabod llawn botensial gyrfa yn y diwydiannau creadigol. Yn y cyd-destun hwn, mae'n werth nodi argymhellid y Cyngor Diwydiannau Creadigol yn ei adroddiad ar yr Undeb Ewropeaidd a'r diwydiannau creadigol yn 2017 y dylai'r Llywodraeth a'r diwydiant: "ddatblygu cynllun gweithredu ar y cyd ar gyfer system addysg a gyrfaoedd sy'n rhoi blaenoriaeth ar frys ar gyfuno dysgu gwyddonaeth a chreadigol mewn ysgolion drwy STEAM (y gwyddorau, technoleg, peirianeg, y celfyddydau a mathemateg), cynyddu darpariaeth o gyrsiau creadigol a mynediad cyffredinol i wybodaeth ac arweiniad gyrfaoedd o safon uchel."

8. Yn ogystal â'r pryderon parthed y farchnad sgiliau, mae digwyddiadau megis MIPCOM, a gynhelir bob blwyddyn yn Cannes yn hanfodol i werthiant rhyngwladol rhaglenni. Er nad ydynt yn gyfyngedig i wledydd yr Undeb Ewropeaidd, mae'n fantais medru ymwneud â nhw fel aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

3 Sectors Economic Estimates 2017: Employment, Creative Industries Sub-Sector, DCMS, 26 Gorffennaf 2017

4 'Mapping Study of EU Funding of the UK Screen Sectors 2007-2017', BFI Film Forver / SQW, Mawrth 2018

5 <https://gov.wales/newsroom/educationandskills/2018/tim-peake-joins-minister-for-welsh-language-and-lifelong-learning-to-announce-to-get-girls-into-stem/?skip=1&lang=cy>, cyrchwyd 12 Hydref 2018

6 GCSE results confirm continued collapse of arts in schools. Arts Professional, 23 Aug 2018.

7 <https://gov.wales/newsroom/educationandskills/2018/wales-curriculum-to-put-citizens-first-kirsty-williams/?skip=1&lang=cy>, cyrchwyd 12 Hydref 2018

7 <https://gov.wales/newsroom/educationandskills/2018/wales-curriculum-to-put-citizens-first-kirsty-williams/?skip=1&lang=cy>, cyrchwyd 12 Hydref 2018

Pryder na fydd bellach yn bosibl i ymgeisio am arian EU Media ar gyfer sgiliau a rhaglenni teledu a ffilmiau anfasnachol darlledu cyhoeddus

9. Ar hyn o bryd, mae cynllun Creative Europe yn ariannu sgiliau a datblygu cynnwys aml-gyfrwng ar sail nifer o feini prawf sy'n ystyried y tebygolrwydd y byddai rhaglenni'n medru cael eu cynhyrchu heb gefnogaeth o'r fath. Mae prentisiaethau wedi eu hariannu gan yr Undeb Ewropeidd yn bwysig iawn i'r diwydiant cynhyrchu teledu yn gyffredinol. Gallai fod yn fuddiol i'r Pwyllgor ystyried adroddiad y Creative Industries Federation ar faterion sy'n ymwneud â gadael yr Undeb Ewropeidd, sy'n nodi: "Mae'r DU yn derbyn mwy o arian na bron i unrhyw wlad arall drwy gronfa Creative Europe. Cafodd hyn effaith drawiadol ar sawl ardal o fewn cenedloedd a rhanbarthau'r DU."⁸

Y posibilrwydd o golli mynediad i'r Farchnad Sengl

10. Mae nifer sylweddol o gynyrchiadau aelodau TAC wedi eu gwerthu i amryw o wleyddd Ewropeidd dros y blynyddoedd diwethaf. Mewn papur ar ôl y refferendwm ar effaith debygol y bleidlais ar ddiwydiannau creadigol y cyfryngau, disgrifiodd Enders Analysis⁹ 1. Fynediad i'r Farchnad Sengl fel "budd pwysig" oherwydd y "mynediad uniongyrchol mae'n ei gynnig i gwmnïau cynhyrchu yn y DU i allforio'u cynnyrch i farchnadoedd Ewropeidd ehangach." Casgliad yr adroddiad oedd bod aelodaeth o'r EEA yn greiddiol i hyn: "Yn sgil ein dadansoddiad o effaith gadael yr Undeb Ewropeidd ar wariant ar hysbysebu ac ar y sector gweledol a chlywedol, lle rydyn ni wedi canolbwyntio ar ddiwydiannau darlledu teledu a chynhyrchu ffilm a theledu, nid oes gennym amheuaeth mai'r EEA yw'r unig ffordd ymlaen i sector sydd wedi mwynhau twf cryf dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r DU wedi elwa'n fawr o'i aelodaeth o'r Undeb Ewropeidd."

11. Mewn datganiad diweddar ar oblygiadau sefyllfa 'dim bargaen', dywedodd y Creative Industries Federation: "fwy na thebyg y byddai'r Undeb Ewropeidd yn sefydlu gwiriadau tollau a ffiniau maent yn eu gweithredu ar gyfer gwledydd allanol ar hyn o bryd, a byddai'r gwrthwyneb hefyd yn wir, sy'n golygu gall fod oedi difrifol. Yn ogystal, ni fyddai'r DU yn rhan o'r Farchnad Sengl Ddigidol, a allai danseilio mynediad i'r Undeb Ewropeidd i wasanaethau digidol."

Cyfarwydddeb AVMS – Egwyddor 'Gwlad y Tarddiad' (CO)

12. Ar hyn o bryd, mae rhai darlledwyr masnachol, e.e. NBC a Discovery, yn darlledu i'r Undeb Ewropeidd o'r DU. Yn ddibynnol ar y berthynas a ddaw gyda'r Undeb Ewropeidd, mae'n bosibl y byddant yn symud i dir mawr Ewrop er mwyn parhau i fedru manteisio ar Egwyddor CO, sy'n caniatáu iddynt weithio o dan un drefn reoleiddio. Os byddant yn symud, gallai hyn olygu llai o fuddsoddiad yn y sector cynhyrchu annibynnol yn y DU, y maent yn eu defnyddio'n helaeth i greu cynnwys gwreiddiol ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'r DU yn gweithredu fel canolbwynt creadigol hynod effeithiol, sydd bellach dan fygythiad gan ddiffyg mynediad i'r Farchnad Sengl a rheoliadau maes Egwyddor CO. Yn ôl yr ymgynghorwyr arbenigol Prospero Strategy: "Mae 15-

⁸ 'Brexit Report', Creative Industries Federation, Hydref 2016, t29

⁹ 'Brexit - Dismal media outlook', Enders Analysis, 1 Gorffennaf 2016

20% o gyflogaeth yn y DU ar gyfer gweithredwyr aml-sianel (tua 1600 o bobl) ynghlwm â sianeli o'r tu allan i'r DU, a gallai'r gyflogaeth hon gael ei pheryglu.”¹⁰

13. Hoffem dynnu sylw'r Pwyllgor at bapur diweddar Llywodraeth y DU ar y goblygiadau posibl i ddiwydiant y cyfryngau os na fydd bargaen wedi ei tharo ar adael yr Undeb Ewropeaidd. Ynndo, dywedodd, er y gallai cytundebau eraill gloriannu'r diffyg, nid ydy'n bosibl gwarantu y bydd yr un system yn cael ei chynnal.¹¹ Mae Cymdeithas y Darlledwyr Masnachol (The Commercial Broadcasters' Association), sy'n cynrychioli nifer o ddarlledwyr rhyngwladol sy'n ymdrin â'r sefyllfa, wedi parhau i alw am eglurdeb manylach o ran y posibilrwydd y bydd cwmnïau'n adleoli y tu hwnt i'r DU, a beth fyddai effaith colled bosibl yr holl fuddsoddi a'r pwysigrwydd strategol sydd ynghlwm.¹²

Sgil-ffeithiau negyddol ar hysbysebu a chyllidebau cynnwys darlledwyr

14. Yn fuan wedi cyhoeddi canlyniad y refferendwm, gostyngodd ITV ei ragolygon elw¹³ oherwydd ansicrwydd am lefelau hysbysebu, ac mae'r ansicrwydd hwn yn parhau hyd heddiw yng nghydestun gadael yr Undeb Ewropeaidd.

¹⁰ 'Brexit – What does it mean?', Prospero Strategy, Gorffennaf 2016, t2

¹¹ 'Broadcasting and video on demand if there's no Brexit deal', Llywodraeth y DU, Medi 2018
<https://www.gov.uk/government/publications/broadcasting-and-video-on-demand-if-theres-no-brexit-deal> cyrchwyd 8 Hydref 2018

¹² 'COBA calls on Government to be ambitious on broadcasting', *Broadband and TV News*, 24 Gorffennaf 2018

¹³ 'ITV cuts 120 jobs as Brexit uncertainty slows UK TV ad market', *The Guardian*, 24 Hydref 2016